Jesse Boot 1850–1931

Barwn Trent, masnachwr a fferyllydd

Ganwyd Jesse Boot yn Nottingham ar 2 Mehefin 1850. Roedd ei dad John Boot (1815–1860) yn llysieuydd meddygol ac yn Fethodist Wesleaidd o argyhoeddiad dwfn. Tybiai rhai fod diddordeb ei dad mewn meddyginiaeth wedi deillio o gyfrol John Wesley sef *Primitive Physic,* ond o ffynhonnell arall y deilliodd, sef y Thomsoniaid yn yr Unol Daleithiau. Er hynny daeth â'i sêl efengylaidd i'w fusnes a defnyddiodd ei weinidogaeth grwydrol leyg fel cyfrwng i ddod â moddion llysieuol i'r tlawd. Trosglwyddodd ei sêl efengylaidd Anghydffurfiol i'w fab Jesse. Pan oedd Jesse yn ddeg oed bu farw ei dad a bu'n rhaid iddo adael ysgol uwchradd Nottingham i weithio oriau hirion yn y siop lysieuol fechan deuluol. Roedd canran uchel o'r boblogaeth yn symud fwyfwy at foddion oedd yn cael eu hysbysebu ac felly roedd dyfodol y siop yn dibynnu ar newid trywydd. Penderfynodd ehangu ei orwelion gan ddechrau gwerthu amrywiaeth o gynnyrch gan gwmnïau eraill. O dan nawdd tri gŵr busnes lleol fe lansiodd ymgyrch hysbysebu yn y *Nottingham Daily Express* yn Chwefror 1877. Bu'n llwyddiant ysgubol a chynyddodd ei enillion wythnosol o £20 i £100. Yn y cyfnod hwn datblygodd ei egwyddorion busnes oedd yn seiliedig ar drosiant uchel gyda ffiniau elw isel ac ymgais gyson i sefydlu a hyrwyddo ei gynhyrchion ei hun.

Wedi iddo adeiladu eiddo deniadol yn Nottingham ym 1883 agorodd ganghennau yn Lincoln, Sheffield a threfi eraill. O'r dechrau cynhyrchodd foddion ei hun ond ym 1885 huriodd le mewn ffatrïoedd ger gorsaf Midland yn y dref. Daeth y llwyddiant mwyaf yn sgil dechrau dosbarthu moddion. Yn y cyfnod hwn newidiwyd cyfraith gwlad fel ei bod yn bosibl bellach i'r cwmni gyflogi fferyllwyr trwyddedig.

Ym 1886 torrodd ei iechyd ac aeth ar ei wyliau cyntaf i Jersey lle y syrthiodd dros ei ben a'i glustiau mewn cariad â Florence Annie Rowe a'i phriodi. Daeth hi i'w gynorthwyo yn y busnes trwy edrych ar ôl y merched a weithiai iddynt a datblygu ochr gwerthu llyfrau, deunydd ysgrifennu a lluniau'r cwmni.

Oherwydd bod cwmnïau eraill yn tyfu a bygwth ei fusnes fe aeth i bartneriaeth gydag eraill fel James Duckworth o Rochdale, Weslead arall a gwerthwr te. Ym 1901 prynodd 65 o siopau a dau warws Cwmni Day yn Llundain a de Lloegr. Dechreuodd hysbysebu fwy a mwy yn y wasg Brydeinig. Cynyddodd nifer y canghennau o 251 ym 1901 i 560 ym 1914. Yna ym 1903 dechreuwyd adeiladu siopau adrannol (department) yn y prif drefi a bu hyn unwaith eto yn llwyddiant ysgubol.

Nid oedd gan Jesse Boot lawer o ffydd yn ei fab John Campbell ac felly ym 1920 gwerthodd reolaeth y busnes i'r Americanwr Louis K. Liggett am £2.275 miliwn. Rhoddodd lawer o roddion i ddinas Nottingham er mwyn darparu parciau a wardiau ysbyty a bu yn eithriadol o hael tuag at Brifysgol Nottingham. Bu farw ar 13 Mehefin 1931 yn Vallée, Jersey.